

Y Diweddaraf am Bolisi'r UE (EU2013.04): Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)

Diweddarwyd: Hydref 2013

Cyflwyniad

Ym mis Mehefin 2013, cafwyd cytundeb gwleidyddol rhwng sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ynghylch diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Roedd y cytundeb yn ffrwyth proses ddwys o drafod mewn mwy na 40 sesiwn drafod.

Er bod y sefydliadau wedi cytuno ar y rhan fwyaf o gynnwys pecyn diwygio'r PAC, ni chytunwyd ar rai cymalau allweddol hyd nes y cynhaliwyd trafodaeth dairochrog arall ar 24 Medi 2013.¹

Mesurau Trosiannol

Fel y nodwyd yn rhifynnau blaenorol y ddogfen ddiweddar hon mae'r oedi yn y broses drafod yn golygu na ddaw'r PAC newydd i rym tan fis Ionawr 2015. Felly, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnig mesurau trosiannol ar gyfer 2014. Mae'r rhain wrthi'n cael eu trafod gan Gyngor y Gweinidogion a Senedd Ewrop.²

Cyllideb

Am y cyfnod 2014-2020, y gyllideb ar gyfer taliadau uniongyrchol colofn un fydd €277.8 biliwn, sydd 11% yn llai o gymharu â 2007-13. Am y cyfnod 2014-2020, y gyllideb ar gyfer taliadau datblygu gwledig colofn dau fydd €84.9 biliwn, sydd 12% yn llai o gymharu â 2007-13.

¹ Datganiad i'r Wasg gan y Comisiwn Ewropeaidd, *Reform of the CAP: political agreement reached on last remaining points*, 24 Medi 2013 [fel ar 25 Medi 2013]

² COM 2013(0226) [fel ar 25 Medi 2013]

Nid yw'r dyraniadau a gaiff y DU o'r gyllideb wedi eu cadarnhau hyd yma, ond disgwylir y bydd €17.8³ biliwn ar gael ar gyfer taliadau uniongyrchol colofn un yn y cyfnod 2014-2020 ac y bydd €1.84 biliwn ar gael ar gyfer rhaglenni datblygu gwledig colofn dau.⁴

Mae trafodaethau ar y gweill ynghylch sut orau i rannu dyraniad y DU rhwng Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Gweithredu Rhanbarthol

Llwyddodd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau gwelliant a fydd yn golygu y caiff llywodraethau rhanbarthol yn yr Aelod-wladwriaethau lunio eu dulliau eu hunain o weithredu'r PAC. Lle ceir yr ymadrodd Aelod-wladwriaeth yn y nodyn hwn, mae hynny'n cwmpasu llywodraethau "rhanbarthol" hefyd (gan gynnwys Llywodraeth Cymru). Byddant yn cael pŵer i benderfynu drostynt eu hunain beth y maent am ei wneud.

Crynodeb o'r Prif Ddiwygiadau i'r PAC y Cytunwyd Arnynt

Taliadau Uniongyrchol

Mae'r rheoliad y cytunwyd arno wedi rhoi cryn dipyn o hyblygrwydd i'r Aelod-wladwriaethau benderfynu drostynt eu hunain sut y byddant yn gweithredu'r gofynion hyn yn eu tiriogaethau.

- **Cydyfeirio rhwng Aelod-wladwriaethau:** Bydd Aelod-wladwriaethau sydd ar hyn o bryd yn cael llai na 90% o gyfartaledd yr UE yn gweld cynnydd yn eu cyllideb PAC. Bydd y cynnydd hwnnw yn draean y gwahaniaeth rhwng eu cyfradd gyfredol a 90% o gyfartaledd yr UE. Bydd hyn yn digwydd rhwng 2015 a 2020. Mae gwarant y bydd yr Aelod-wladwriaethau wedi cael yr isafswm erbyn 2019.

³ DEFRA, *CAP Reform in England Status report on direct payments*, Awst 2013 [fel ar 27 Medi 2013]

⁴ Defra, *CAP Reform in England: Status Report on the new Rural Development Programme*, Awst 2013 [fel ar 27 Medi 2013]

- **Y Taliad Sylfaenol:** Bydd yn ofynnol i'r holl Aelod-wladwriaethau symud tuag at ddyrannu taliadau ar sail arwynebedd. Erbyn 2019, bydd pob ffermwr mewn Aelod-wladwriaeth yn cael o leiaf 60% o daliad sylfaenol cyfartalog yr Aelod-wladwriaeth. Caiff Aelod-wladwriaethau sydd ar hyn o bryd yn defnyddio dulliau blaenorol o dalu benderfynu pa mor gyflym y maent am symud tuag at daliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd.

Bydd symud i ddull arall o dalu yn golygu y bydd y taliadau yn cael eu hailddosbarthu rhwng ffermydd ac felly caiff Aelod-wladwriaethau ddewis cyfyngu ar golledion unrhyw fferm unigol i 30%.
- **Taliadau gwyrdd:** Bydd 30% o gyllideb colofn un yn cael ei ddosbarthu i ffermwyr sy'n cydymffurfio â thri mesur gwyrdd, lle bo hynny'n berthnasol.
- **Arallgyfeirio o ran cnydau:** Bydd gofyn i ffermwyr sydd â rhwng 15 a 30 hectar o dir â'r dyfu o leiaf ddau gnwd, ac ni chânt dyfu yr un cnwd ar fwy na 75% o'r holl arwynebedd. Rhaid i ffermwyr sydd â mwy na 30 hectar o dir â'r dyfu o leiaf dri chnwd, ac ni chânt dyfu yr un cnwd ar fwy na 75% o'r holl arwynebedd na thyfu'r ddau brif gnwd gyda'i gilydd ar fwy na 95% ohono.
- **Glaswelltir neu borfa barhaol:** Ni chaniateir troi mwy na 5% o laswelltir neu borfa barhaol. Caiff yr Aelod-wladwriaethau benderfynu a fydd y gofyniad hwn yn gymwys yn genedlaethol neu ar lefel ffermydd.
- **Ardaloedd â Ffocws Ecolegol:** Bydd yn ofynnol i ffermwyr sydd â mwy na 15 hectar o dir â'r roi 5% o dir y fferm o'r neilltu yn 2015 er mwyn creu ardaloedd â ffocws ecolegol. Gallai hyn godi i 7% erbyn 2017 yn dibynnu ar ganlyniad adolygiad a gynhelir i weld pa mor effeithiol ydynt. Mae ymylon caeau, perthi, coetiroedd, gwndwn, nodweddion tirwedd, lleiniau clustogi a llynnoedd oll yn cyfrif fel Ardaloedd â Ffocws Ecolegol.

- **Bydd ffermwyr organig rhestredig yn cael y taliad hwn yn awtomatig.** Caiff Aelod-wladwriaethau ddewis caniatáu i ffermwyr sy'n rhan o gynlluniau amaeth-amgylchedd presennol gael y taliad gwyrdd yn awtomatig. Fodd bynnag, rhaid iddynt sicrhau fod y cynllun y maent yn rhan ohono yn dod â mwy o fudd i'r amgylchedd na'r mesurau gwyrdd. **Taliad o dan un cynllun yn unig a roddir, hynny yw nid oes hawl i ffermwr dderbyn taliad gwyrdd** yn ogystal â thaliad o dan y cynlluniau amaeth-amgylchedd presennol.
- **Y Cynllun Ffermwyr Ifanc:** Bydd yn orfodol i bob Aelod-wladwriaeth fod â chynllun i chwyddo'r taliad i ffermwyr ifanc. Rhaid gwario 2% o'r gyllideb genedlaethol yng ngholofn un ar hyn. Rhaid i ffermwyr fod yn iau na 40 mlwydd oed a phan fyddant yn cael y taliad am y tro cyntaf, bydd 25% o'r taliad hwnnw yn cael ei chwyddo am y pum mlynedd cyntaf (neu hyd nes iddynt gael eu pen-blwydd yn 40) hyd at uchafswm o 90 hectar.
- **Cynllun y Ffermwyr Bach:** Caiff yr Aelod-wladwriaethau ddewis cyflwyno cynllun y ffermwyr bach i ffermwyr sy'n cael hyd at €1,250 y flwyddyn. Ni fyddai ffermwyr sy'n rhan o'r cynllun yn destun mesurau trawsgydymffurfio na mesurau gwyrdd. Ceir gwario hyd at 10% o'r gyllideb genedlaethol ar y mesur hwn.
- **Ffermwyr Actif:** Mae sefydliadau'r UE wedi cytuno mai dim ond y ffermwyr hynny a ddiffinnir yn rhai 'actif' a fydd yn gymwys i gael taliadau uniongyrchol o dan y PAC. Cytunwyd ar restr o fusnesau ledled yr UE sy'n anghymwys i gael y taliadau. Yn eu plith mae meysydd awyr, gwasanaethau rheilffyrdd, gwaith dŵr, eiddo tiriog a meysydd chwarae. Caiff yr Aelod-wladwriaethau ddewis ychwanegu busnesau at y restr hon.

- **Taliad Chwyddo am yr Hectarau Cyntaf:** Bydd Aelod-wladwriaethau neu Ranbarthau yn medru dewis defnyddio hyd at 30% o'u cyllideb genedlaethol i chwyddo'r taliad ar gyfer 30 hectar cyntaf pob fferm. Gellir talu unrhyw swm am bob hectar ond ni chaiff y taliadau fod yn fwy na 65% o'r taliad cyfartalog cenedlaethol yr hectar.
- **Capio taliadau a lleihad cyson fesul blwyddyn yn y cymhorthdal (*degressivity*):** Ac eithrio'r taliadau gwyrdd, bydd unrhyw swm dros €150,000 a roddir i fusnes fferm unigol yn cael ei ostwng 5%. Caiff yr Aelod-wladwriaethau ganiatáu i gostau cyflog gael eu tynnu o'r taliad cyn cyfrif y cyfanswm y mae fferm i'w gael. Er enghraifft pe byddai fferm i gael €170,000, a phe byddai ei chostau cyflog yn €25,000, gallai Aelod-wladwriaeth ddewis peidio â chymhwysu'r gostyngiad o 5%. Os tynnir unrhyw symiau drwy'r dull hwn, rhaid iddynt gael eu gwario ar fesurau datblygu gwledig.

Mae eithriad wedi'i ddarparu i Aelod-wladwriaethau sy'n defnyddio'r opsiwn i roi taliadau chwyddo am y 30 hectar cyntaf.
- **Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol (Ardaloedd Llai Ffafriol):** Caiff yr Aelod-wladwriaethau ddewis defnyddio hyd at 5% o'u taliadau i roi taliadau ychwanegol i ffermwyr mewn Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol. Hefyd, mae darpariaeth wedi'i gwneud yn y Rheoliad Datblygu Gwledig ar gyfer Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol.
- **Trosglwyddo Cyllid rhwng Colofnau:** Caiff Aelod-wladwriaethau drosglwyddo hyd at 15% o'u cyllideb colofn un ar gyfer taliadau uniongyrchol i golofn dau ar gyfer datblygu gwledig. Ni fydd gofyn i'r Aelod-wladwriaethau gyd-ariannu unrhyw symiau a drosglwyddir. Hefyd, caiff yr holl Aelod-wladwriaethau drosglwyddo hyd at 15% o'u hamlen genedlaethol o golofn dau i golofn un, a chaiff Aelod-wladwriaethau sydd ar hyn o bryd yn cael llai na 90% o gyfartaledd yr UE drosglwyddo hyd at 25% o golofn dau i golofn un.

Y Rheoliad Datblygu Gwledig

Bydd yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau lunio cynlluniau datblygu gwledig newydd ar sail chwe blaenoriaeth. Y blaenoriaethau hynny yw:

- Gwybodaeth ac arloesi;
- Gwneud ardaloedd gwledig yn fwy cystadleuol;
- Datblygu'r gadwyn fwyd a rheoli risg;
- Diogelu ecosystemau;
- Defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol; a
- Datblygu economaidd a lleihau tlodi.

Gellir gwneud darpariaeth o fewn y cynlluniau i roi cymorth i Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol (Ardaloedd Llai Ffafriol). Diffinnir Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol yn ôl wyth maen prawf bioffisegol, a rhaid i o leiaf 60% o arwynebedd fferm fodloni un o'r meini prawf hynny cyn y gellir ei diffinio'n Ardal â Chyfyngiadau Naturiol. Rhaid i'r Aelod-wladwriaethau gyflwyno'r diffiniad newydd hwn erbyn 2018, ond cânt ei gyflwyno cyn hynny os dymunant. Rhaid gwario o leiaf 30% o gyllidebau colofn dau ar gyfuniad o fesurau amaeth-amgylchedd, hinsawdd, coedwigaeth, safleoedd gwarchoddedig neu ardaloedd â chyfyngiadau naturiol.

Y Rheoliad Llorweddol

Yn y rheoliad hwn ceir darpariaeth sy'n pennu'r gofynion ar gyfer rheoli a gweinyddu cyllid y PAC gan yr Aelod-wladwriaethau.

Caiff mesurau trawsgydymffurfio eu cynnwys yn y rheoliad hwn a byddant yn gymwys i bob taliad uniongyrchol, rhai taliadau datblygu gwledig a rhai taliadau gwinwydd.

Hefyd, mae'r rheoliad hwn yn cynnwys y darpariaethau sy'n ymwneud â'r cosbau y bydd ffermwyr yn eu hwynebu am fethu â chydymffurfio â gofynion y mesurau gwyrdd. Heblaw colli'r taliad gwyrdd o 30%, gallai ffermwyr gael dirwy o 6% o'u taliad sylfaenol. Bydd hyn yn codi i 7.5% yn 2018.

Perthnasedd i Gymru

Ar hyn o bryd, mae Cymru yn elwa ar tua **€3 biliwn** o'r PAC:

- mae tua **€370 miliwn y flwyddyn** yn mynd i ffermwyr ar ffurf taliadau sengl o dan Golofn 1 y PAC; ac
- mae tua **€340 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer y cyfnod rhwng 2007 a 2013 o dan Golofn 2** y PAC ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru.

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, bydd y gyllideb a fydd ar gael i Gymru yn 2014-2020 yn llai na'r hyn a oedd ar gael yn y gorffennol oherwydd bod cyllideb gyffredinol yr UE ar gyfer y PAC wedi gostwng.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen ymgynghori a amlinellodd fwradau'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar gyfer gweithredu taliadau uniongyrchol colofn un yng Nghymru.⁵

Mae'r Gweinidog wedi amlinellu y byddai'n well ganddo weld system o ddau gategori tir yn cael ei chyflwyno ar gyfer dosbarthu taliadau uniongyrchol yng Nghymru erbyn 2019. Dywedodd y Gweinidog nad yw'n fwriad ganddo gyfyngu i 30% y colledion sy'n wynebu ffermydd unigol wrth drosglwyddo i daliadau ar sail arwynebedd. Nid yw ychwaith yn bwriadu cynnig taliad chwyddo ar hectarau cyntaf ffermydd.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru o blaid gweithredu'r tri dewis gwyrdd fel y nodir yn y rheoliad heb ddefnyddio unrhyw opsiynau cyfwerthedd.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn awyddus i gyflwyno cynllun y ffermwyr bach, cynllun ardaloedd llai ffafriol o dan golofn 1 na chymorth cysylltiedig, nac i ychwanegu at y rhestr o fusnesau na fydd yn cael hawlio taliadau uniongyrchol.

⁵ Llywodraeth Cymru, *Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin: Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr*, Gorffennaf 2013 [fel ar 25 Medi 2013]

O ran trosglwyddo cyllid rhwng colofn un a cholofn dau, mae'r Gweinidog wedi dweud ei fod am aros hyd nes y bydd yn gwybod yn bendant beth fydd dyraniad Cymru cyn dod i benderfyniad terfynol.

O safbwynt Datblygu Gwledig, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad yn amlinellu'r cynigion ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf (2014-2020) ym mis Ionawr 2013.⁶ Mae rhai o ymyriadau arfaethedig y cynllun nesaf yn cynnwys:

- Ystyried defnyddio mesurau ariannol newydd, fel benthyciadau, i gynorthwyo gyda buddsoddi ar ffermydd ac arallgyfeirio anamaethyddol;
- Buddsoddi mewn prosesu cynhyrchion, dulliau'r gadwyn gyflenwi a throsglwyddo gwybodaeth;
- Ynni adnewyddadwy ar ffermydd ac yn y gymuned; a
- Chynllun coedwigaeth i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu coedwigoedd masnachol a phreifat yn gynaliadwy.

Safbwynt Llywodraeth y DU

Yn ôl Owen Patterson, Ysgrifennydd Gwladol y DU, mae canlyniad y trafodaethau ynghylch diwygio yn 'dderbyniol' ond gellid bod wedi gwneud mwy i ddiwygio'r PAC.⁷ Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod y cynigion y cytunwyd arnynt yn well na'r rhai a gyflwynwyd yn wreiddiol gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi diweddariadau yn mynegi ei safbwyntiau cychwynol a'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer gweithredu'r diwygiadau yn Lloegr. Ceir ei phapur ar daliadau uniongyrchol **yma** a'i phapur ar ddatblygu gwledig **yma**.

Yn gyffredinol, mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn defnyddio'r hyblygrwydd sydd ar gael i weithredu'r cynigion yn Lloegr mewn ffordd syml, effeithiol a fforddiadwy.

⁶ Llywodraeth Cymru, *Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020: Y camau nesaf*, Ionawr 2013 [fel ar 25 Medi 2013]

⁷ GOV.UK, Polisi: *Reforming the Common Agricultural Policy to ensure a fair deal for farmers, consumers and tax payers*, diweddarwyd 12 Awst 2013, [fel ar 24 Medi 2013]

Ymateb y Gweinyddiaethau

Mae Richard Lochhead MSP, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig a'r Amgylchedd yn Llywodraeth yr Alban, wedi croesawu'r cytundeb.⁸ Yn ei farn ef, bydd y PAC newydd yn well ac yn decach, er y byddai yr un mor gymhleth.

Mae Llywodraeth yr Alban wedi dadlau'n gryf dros gael mwy o gyfran i'r Alban o gyllideb PAC y DU. Nid yw Llywodraeth yr Alban yn bwriadu cynnal ymgynghoriad llawn ar weithredu'r PAC tan dymor yr hydref 2014.

Mae Michelle O'Neill, y Gweinidog dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yng Ngogledd Iwerddon, wedi croesawu canlyniad y trafodaethau a'r cytundeb i ganiatáu gweithredu rhanbarthol.⁹ Dywedodd y Gweinidog ei bod yn falch bod mwy o hyblygrwydd wedi'i roi wrth drosglwyddo i daliadau ar sail arwynebedd ac wrth gyflwyno'r mesurau gwyrdd. Mae ymgynghoriad wedi'i lansio ynghylch cynigion Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar gyfer ei chynllun datblygu gwledig nesaf.¹⁰

⁸ Datganiad i'r Wasg gan Lywodraeth yr Alban, **CAP deal sealed**, 26 Mehefin 2013 [fel ar 25 Medi 2013]

⁹ Datganiad i'r Wasg gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, **CAP Reform Deal Struck in Luxembourg**, 26 Mehefin 2013 [fel ar 25 Medi 2013]

¹⁰ Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, **Consultation on the Rural Development Programme 2014-2020**, Gorffennaf 2013 [fel ar 25 Medi 2013]

Cynnydd y coflenni yn sefydliadau'r UE

Ar 24 Medi 2013, cafwyd cytundeb gwleidyddol a oedd yn datrys yr holl faterion a oedd yn weddill mewn perthynas â chynigion diwygio'r PAC. Disgwylir y bydd y rheoliadau'n cael eu mabwysiadu'n swyddogol gan y Senedd ym mis Tachwedd 2013, a chan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2013.

O ran y mesurau trosiannol, mabwysiodd Pwyllgor Amaethyddiaeth Senedd Ewrop ei safbwynt ar 30 Medi. Caiff y safbwynt hwn ei gadarnhau gan Senedd Ewrop drwy bleidlais yn y cyfarfod llawn. Disgwylir i'r bleidlais gael ei chynnal fis Tachwedd 2013.

Mae'r Cyngor yn parhau i drafod y mesurau trosiannol.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **y broses o ddiwygio'r PAC** cysylltwch â **Nia Seaton** (Nia.Seaton@cymru.gov.uk)